# <u>DATGANIAD O’R RHESYMAU</u>

## GORCHYMYN ARFAETHEDIG YN GWAHARDD GODDIWEDDYD - B4309, BANCYCAPEL

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnig gwahardd goddiweddyd ar hyd rhan o Ffordd Dosbarth II, y B4309, ym Mancycapel er budd diogelwch ffyrdd.

Nodweddir y rhan hon o'r ffordd gan gyffyrdd â ffyrdd ochr, newidiadau mewn lefel, a gwelededd cyfyngedig o'ch blaen, sy’n ei gwneud hi'n anodd goddiweddyd yn ddiogel ac yn cynyddu'r risg o wrthdrawiadau, yn enwedig gwrthdrawiadau wyneb yn wyneb.

Rhagwelir y bydd y Gorchymyn hwn yn atgyfnerthu'r ffaith nad yw goddiweddyd yn addas, yn gwella cydymffurfiaeth â chyfyngiadau, ac yn lleihau'r tebygolrwydd o ddamweiniau. Ystyrir ei fod yn fesur angenrheidiol a chymesur i wella diogelwch i bob defnyddiwr ffordd.